

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar y 4ydd Fai 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones,, Neil Pringle, Catherine Williama, Cyng Elisabeth Roberts
Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Dyfed Jones, Janet Charlton, Mari E M Mathews.

Aelod Newydd

Croesawyd Ms Catherine Williams, Bryn Gwynt, Betws-y-Coed yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Datgan diddordeb, Dim datganiad.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 31ain Fawrth 2021

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Nodwyd bydd y Cyngor Cymuned yn cyfarfod gyda CADW, pan i'r cyfnod clo ddod i ben.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau

Cytunodd y Cyng Neil Pringle i drefnu cyfarfod gyda'r trydanwr Gethin Clwyd yng Nghae Llan.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Pont y Mwynwyr

Y clerch i geisio diweddariad gan Gyngor BS Conwy.

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Nodwyd bod y mater wedi ei ohirio o ganlyniad coronafeirws.

[1.6] Siop Climber a Rambler

Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai'n trafod y mater gyda swyddog eiddo gwag y Cyngor Sir, a hefyd yn cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ynglyn a'r llechi rhydd ar y to.

[1.7] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Eglurodd y clerch nad oedd cysylltiad pellach oddiwrth y Cyngor Sir. Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts i wneud ymholiadau.

[1.8] Gwasanaeth Sgip

Y clerc i wneud i drefnu gwasanaeth sgip misol bob yn ail a Ffordd yr Orsaf a Pentre Du

[1.9] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd nad oedd cysylltiad gan y Gymdeithas Tai. Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts i wneud ymholiadau.

[2.] Biniau yn y Pentref.

Coesawyd y trefniadau i wagu'r biniau yn llawer amlach yn enwedig yng Nghae Llan

[2.1] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Eglurodd y clerc bod Adran yr Amgylchedd y Cyngor Sir yn bwriadu cael golwg ar rhai o'r cerbydau cludiant.

[2.2] Materion Parcio Pentre Du

Nodwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts yn trefnu cyfarfod i drafod y mater.

[2.3] Ymgynghoriad Meusydd Parcio APCE

Dyweddodd y clerc bod APCE yn bwriadu cysylltu gyda phob preswylfa ynglyn a'r cynigion, a bod yr ymgynghoriad yn parhau i fod yn agored.

Y Brif Agenda

[2.4] Materion Cynllunio

Cais ol weithredol i ail wneud a creu estyniad i'r garej a chreu ystafell ardd Ty'n-y-Merddyn, Pentre Du
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1af-31ain Ebril 2021.

[b] Nodwyd bod y Rhaeadr Ewynnol wedi ail agor yn dilyn y cyfnod clo.

[2.6] CCA Ffordd yr Orsaf

Penderfynwyd cymeradwyo cynnig gan Gyngor BS Conwy i osod camerau cylch agos yn Ffordd yr Orsaf, yn amodol nad oedd y Cyngor Cymuned ynghlwm i unrhyw gostau yn y dyfodol.
Deallwyd bod arian ar gael trwy gronfa cofid.

[2.7]] Materion y Pentre

Nodwyd bod Network Rail wedi trwsio y rheiliau rhydd ar bont droed y rheilffordd.
Dyweddodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ynglyn a adolygiad o strwythur y Pont-y-Soldiwr.

[2.8] Arwyddion Lleol

Y clerc i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ynglyn a'r arwyddion gyda'r golwg i gael eu tacluso ynghyd a chael arwyddion newydd lle bo angen.

[2.9] Car y Llan

Deallwyd gan y Cyng Neil Pringle bod angen gwirfoddolwyr i yrru car y llan. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys cludo clefion i'r feddygfa a chasglu pesgripsiwns a.y.b. Gellir cael gwybodaeth pellach gan Annie Mills , rheolwraig y cynllun a'r 01492523587

[3] Brigad Dan Betws

Nodwyd hefyd bod angen 6 person gan y Frigad Dan leol gan fod gwir angen ychwanegu'r nifer o ddiffoddwyr tan. Gellir cael gwybodaeth pellach gan Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru a'r 01745535254

Cadeirydd_____

